Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Adroddiad ymchwil 118

Effaith LASPO ar lwybrau i gyfiawnder

Crynodeb gweithredol

Dr James Organ a Dr Jennifer Sigafoos,
Prifysgol Lerpwl

Medi 2018

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Crynodeb Gweithredol

Mae'r ymchwil yma'n tanlinellu effeithiau emosiynol, cymdeithasol, ariannol ac iechyd meddwl ar bobl sydd wedi ceisio datrys eu problemau cyfreithiol heb gymorth cyfreithiol, ers rhoi'r Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) ar waith yn 2013.

Cyflwynodd LASPO doriadau mewn cyllid i gymorth cyfreithiol, gan gulhau'r cwmpas a'r meini prawf cymhwyso, a'r canlyniad oed bod llai o bobl yn gallu cael mynediad i gyngor cyfreithiol a chael eu cynrychioli lle roedd problemau mewn meysydd fel cyfraith teulu, cyflogaeth a budd-daliadau lles. Fe wnaethom gyfweld dros 100 o bobl yn Rhanbarth Dinas Lerpwl oedd â phroblemau mewn un neu fwy o'r meysydd hyn, i ddeall sut yr oedd LASPO wedi effeithio ar eu hopsiynau wrth iddynt geisio datrys y problemau hynny. Yn ogystal â hyn, fe wnaethom gyfweld nifer o ddarparwyr cyngor ac ymarferwyr cymorth cyfreithiol, a dadansoddi data cenedlaethol gan Gyngor ar Bopeth.

Soniodd llawer o'r rhai a gymerodd ran am amddifadedd ariannol sylweddol o ganlyniad i geisio datrys eu problemau cyfreithiol, ond heb allu gwneud hynny. Roedd rhai yn methu â fforddio bwyd, tai digonol neu hanfodion eraill. Arweiniodd diffyg cymorth cyfreithiol ataliol at oedi yn y datrys, ac yn aml fe waethygodd y problemau yn sgil hyn. Roedd tystiolaeth hefyd bod costau'n cael eu trosglwyddo i rannau eraill o'r sector cyhoeddus, gan gynnwys rhagor o ddibyniaeth ar fudd-daliadau lles o ganlyniad i broblemau cyflogaeth na chawsant eu datrys.

Cyfraith teulu

- Mae cost uchel ffioedd cyfreithiol yn rhwystr allweddol i gyfiawnder. Dywedodd rhai o'r rheiny a dalodd am gyngor cyfreithiol neu gynrychiolaeth eu bod wedi mynd i ddyled o ganlyniad i hynny.
- Mae anallu pobl i dalu am dystiolaeth arbenigol neu dystiolaeth gan arbenigwyr heb gymorth cyfreithiol wedi arwain at lysoedd yn llunio penderfyniadau ar sail gwybodaeth annigonol.

- Mae toriadau i gymorth cyfreithiol wedi cael effaith negyddol ar fywydau plant, yn enwedig mewn achosion cyswllt â phlant.

Cyfraith cyflogaeth

- Cost uchel cynrychiolaeth gyfreithiol, anhawster darganfod y ffordd trwy'r broses tribiwnlys heb gymorth, a lefel isel o wybodaeth am hawliau cyflogaeth yw'r prif rwystrau i gyfiawnder.
- Dywedodd llawer o'r rheiny a gymerodd ran bod cost dod â'u hawliau gerbron tribiwnlys yn anghymesur o ystyried gwerth yr hawliad. Roedd hynny'n eu hatal rhag dwyn achos, ac yn ei gwneud yn anos dod o hyd i gyfreithiwr a fyddai'n barod i ymgymryd â'u hachos.
- Roedd gan gyfranogwyr lai gyfleoedd i gael cyngor arbenigol a chynrychiolaeth o'r trydydd sector. O ganlyniad i hynny, roedd yn rhaid i'r rheiny a aeth i dribiwnlys eu cynrychioli eu hunain, ac ar y cyfan nid oedd y sgiliau na'r profiad ganddynt i wneud hyn mewn modd cymwys.

Cyfraith budd-daliadau lles

- Mae LASPO wedi lleihau'n sylweddol gallu sefydliadau'r sector gwirfoddol i ddarparu cyngor ar gyfraith lles. Nid oes nemor ddim cyngor arbenigol ar gael bellach i ddarparu cymorth wrth apelio yn erbyn penderfyniadau budd-daliadau.
- Mae dileu cyfraith budd-daliadau lles o gylch darpariaeth cymorth cyfreithiol wedi gwaethygu effaith diwygiadau lles diweddar, ac mae hyn yn debygol o fod wedi effeithio ar bobl anabl yn anghymesur.

Ceisiodd y rhan fwyaf o gyfranogion sawl llwybr i ddatrys un broblem: ceisio datrys problemau ar eu pennau'u hunain, ceisio cyrraedd cyngor cyfreithiol am ddim a chymryd camau i dalu am gyngor neu gynrychiolaeth cyn llysoedd neu dribiwnlysoedd. Ond heb gymorth cyfreithiol, roedd y rhan fwyaf yn ei chael hi'n anodd datrys eu problemau.

Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol cysylltiedig ar gael ar ein gwefan: www.equalityhumanrights.com

Am gyngor, gwybodaeth neu gyfarwyddyd ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu neu hawliau dynol, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb, gwasanaeth annibynnol, rhad ac am ddim. Gwefan www.equalityadvisoryservice.com

Ffôn	0808 800 0082
Ffôn testun	0808 800 0084
Oriau	09:00 tan 19:00 (Llun i Wener)
	10:00 tan 14:00 (Sadwrn)
Post	FREEPOST EASS HELPLINE FPN6521

Gellir cyfeirio unrhyw gwestiynau a sylwadau parthed y cyhoeddiad hwn at: correspondence@equalityhumanrights.com.

Rydym yn croesawu eich adborth.

Fformatau amgen

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael fel ffeil Microsoft Word o www.equalityhumanrights.com. Am wybodaeth ar gael mynediad at gyhoeddiadau'r Comisiwn ar ffurf amgen, cysylltwch â: correspondence@equalityhumanrights.com

© 2018 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Medi 2018

Gallwch chi lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn oddi wrth

www.equalityhumanrights.com

© 2018 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Medi 2018

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission